

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Y Broses ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder i Gyrrff y GIG yng Nghymru



Cyflwyniad

Ein hymrwymiad a'n nod parhaus yn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal o ansawdd da, a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol, yn unol â safonau cydnabyddedig. Ein nod yw annog gwelliant ym maes gofal iechyd drwy wneud y gwaith iawn ar yr adeg iawn yn y lle iawn; gan sicrhau bod yr hyn a wnawn yn cael ei gyfleu'n dda ac yn gwneud gwahaniaeth.

Un o'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd yng [nghynllun strategol](#) Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw y byddwn yn gweithredu pan na chaiff safonau eu cyrraedd. Yn unol â'r flaenoriaeth hon, ac er mwyn anelu at fwy o dryloywder wrth gyflawni ei rôl yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd, mae AGIC wedi cyflwyno proses ar gyfer gwasanaethau sy'n peri pryder i'r GIG.

Bydd AGIC yn defnyddio'r broses gwasanaeth sy'n peri pryder hon pan fydd yn nodi methiannau sylweddol o fewn gwasanaeth unigol, neu bryderon cronol neu systemig mewn perthynas â gwasanaeth neu leoliad. Mae proses uwchgyfeirio a gorfodi AGIC ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yn defnyddio proses o'r fath ar hyn o bryd.

Bydd y broses hon yn gadael i AGIC nodi ac amlygu unrhyw '**Wasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol**', gan wella tryloywder o ran sut mae AGIC yn cyflawni ei rôl, ac yn sicrhau y gall amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys byrddau iechyd, gymryd camau cyflym penodol i sicrhau y caiff gofal diogel ac effeithiol ei ddarparu.

Bydd y broses ar gyfer gwasanaethau sy'n peri pryder a'r dynodiad 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' dilynol yn wahanol ac ar wahân i drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG. Fodd bynnag, bydd y broses hon yn llywio barn a chyfraniad AGIC at y trafodaethau ar statws cyffredinol cyrff y GIG.

Os nodir 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol', bydd AGIC yn rhannu hyn ar ei gwefan, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad hwn, yn ogystal ag unrhyw adroddiad sydd mewn perthynas ag arolygiad neu adolygiad o fwrdd iechyd / ymddiriedolaeth.

Mae Atodiad A, *Proses ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder ar gyfer Cyrff GIG*, yn amlinellu proses uwchgyfeirio bresennol AGIC, ac mae'n manylu ar sut y gallai AGIC nodi gwasanaeth sydd â photensial o beri pryder, a sut y caiff hyn ei reoli a'i isgyfeirio.

Atodiad A

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Y broses ar gyfer gwasanaethau sy'n
peri pryder i gyrff y GIG yng Nghymru

Cefndir

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn arolygu Gwasanaethau'r GIG o dan ei phwerau fel y'u nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 a'i rheoliadau a'i safonau cysylltiedig.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn gweithredu fel conglfaen i'r system sicrhau ansawdd gyffredinol yn y GIG yng Nghymru. Mae arolygiadau AGIC yn seiliedig ar y safonau hyn.

Beth yw pwerau AGIC mewn perthynas â'r GIG?

O dan adrannau 72, 73, 74 a 75 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, mae gan AGIC y pwerau canlynol mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan gyrff y GIG yng Nghymru ac ar eu rhan:

- Archwilio unrhyw ddogfennau neu gofnodion (gan gynnwys cofnodion personol), gwneud copiau ohonynt a'u symud o'r safle;
- Archwilio unrhyw eitem arall a'i symud o'r safle;
- Cyfweld yn breifat ag unrhyw berson sy'n gweithio ar y safle neu unrhyw berson sy'n cael gofal iechyd yno sy'n rhoi caniatâd i gael cyfweiliad;
- Cynnal unrhyw archwiliad arall o gyflwr y safle a'r trefniadau rheoli a'r ffordd y caiff pobl sy'n cael gofal iechyd yno eu trin;
- Gallu gofyn i unrhyw berson sy'n cadw dogfennau neu gofnodion a gedwir ar y safle neu sy'n gyfrifol am ddogfennau neu gofnodion o'r fath i'w darparu;
- Mewn perthynas â chofnodion a gedwir ar gyfrifiadur, y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r cofnodion gael eu darparu ar ffurf ddarllenadwy ac i sicrhau y gellir mynd â nhw o'r safle;
- Archwilio sut y caiff unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig a gaiff eu defnyddio neu a gafodd eu defnyddio mewn perthynas â'r cofnodion dan sylw eu gweithredu.

Mae gan AGIC y pŵer hefyd i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu unrhyw wybodaeth, dogfennau, cofnodion (gan gynnwys cofnodion personol), neu eitemau eraill sy'n ymwneud â darparu gofal iechyd gan un o gyrff y GIG yng Nghymru neu ar ei ran iddi. Byddai hyn yn ddeunydd sy'n ymwneud â chyflawni unrhyw swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag un o gyrff y GIG yng Nghymru ac y mae AGIC o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n ddoeth iddi ei gael at ddibenion adrannau 72, 73, 74 a 75.

Yn unol â Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Arolygiadau Gofal Iechyd) (Cymru) 2005, gall AGIC:

- Ei gwneud yn ofynnol i'r bobl a enwir isod roi esboniad, yn bersonol neu'n ysgrifenedig, o unrhyw ddogfennau, cofnodion neu eitemau a gaiff eu harchwilio, eu copïo neu eu darparu o dan y Ddeddf:

- Un o gyrff y GIG yng Nghymru;
- Cadeirydd, aelod, cyfarwyddwr, cyflogai, aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor un o gyrff y GIG yng Nghymru;
- Darparwr gwasanaeth;
- Cadeirydd, Cyfarwyddwr neu gyflogai darparwr gwasanaeth;
- Person, ac eithrio'r rheini a enwir uchod, sy'n helpu darparwr gwasanaeth i ddarparu gofal iechyd ar ran un o gyrff y GIG yng Nghymru;
- Person, ac eithrio'r rheini a enwir uchod, sy'n helpu, sydd wedi helpu neu a fydd yn helpu un o gyrff y GIG yng Nghymru i arfer ei swyddogaethau.

Ni all AGIC gymryd camau gorfodi yn erbyn gwasanaethau'r GIG. Mae proses Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru yn nodi sut yr ymdrinnir â phryderon ehangach am wasanaethau'r GIG.

Mae arolygiadau ac adolygiadau AGIC yn canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir, a'r profiad a'r canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Pan fydd y gwasanaethau a ddarperir neu'r canlyniadau i bobl yn wael, bydd AGIC yn cymryd camau. Gall hyn gynnwys cyhoeddi hysbysiadau gwella, uwchgyfeirio pryderon i'r tîm gweithredol ac aelodau'r bwrdd mewn bwrdd iechyd/yddiriedolaeth, neu i Lywodraeth Cymru. Bydd AGIC hefyd yn uwchgyfeirio pryderon sylweddol am wasanaethau'r GIG i Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru, a all effeithio ar statws uwchgyfeirio cyffredinol un o gyrff y GIG yng Nghymru, neu wasanaeth unigol a ddarperir gan un o gyrff y GIG yng Nghymru.

Sut y caiff 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' ei nodi?

Mae'r *Llwybr ar gyfer Gwasanaethau'r GIG sy'n Peri Pryder* (Atodiad 1) yn dangos proses uwchgyfeirio fewnol AGIC mewn perthynas â gwasanaethau'r GIG, a sut y gellir nodi, rheoli ac isgyfeirio Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol. Nodir pob cam o'r broses isod.

Casglu gwybodaeth drwy arolygiadau AGIC, adolygiadau, pryderon a hysbysiadau, a/neu gyrff eraill. Mae'n bosibl y bydd AGIC yn ceisio dilysu unrhyw wybodaeth allanol.

Caiff yr holl wybodaeth a gesglir ynghyd gan AGIC ei hystyried yn ystod y cam cychwynnol hwn. Caiff gwybodaeth na chafodd ei dilysu'n fewnol gan AGIC ei chadarnhau os yw'n bosibl, naill ai drwy ohebiaeth neu drwy waith ar y safle.

Cam 1 - Cynnal trafodaeth Brysbennu Camau Uwchgyfeirio i benderfynu a oes angen cymryd camau pellach a lefel yr uwchgyfeirio.

Bydd AGIC yn ystyried y wybodaeth hon ac yn trefnu cyfarfod *brysbennu camau uwchgyfeirio* i benderfynu ar y camau nesaf, ac a oes angen camau uwchgyfeirio pellach. Gall y drafodaeth fewnol hon fod ar sawl ffurf a gall gynnwys gwahanol gynrychiolwyr AGIC. Y nod yw cadarnhau ai camau uwchgyfeirio yw'r llwybr mwyaf priodol. Caiff y drafodaeth hon, ynghyd ag unrhyw benderfyniadau a'r rhesymeg, eu cofnodi. Gall hyn gynnwys trafodaeth â'r Rheolwr Cydberthynas perthnasol ynghylch cynnal gweithgareddau sicrhau pellach (camau dilynol) ac uwchgyfeirio'r achos i Gam 2. Fodd bynnag, os bydd AGIC o'r farn bod y risgiau i ddiogelwch cleifion yn ddigon sylweddol, gellir uwchgyfeirio'r mater i gyfarfod Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn ystod Cam 3. Bydd AGIC yn tynnu ar arbenigedd perthnasol wrth ffurfio'r farn hon.

Cam 2 - Trafodaeth am weithgareddau dilynol / ôl-ddilynol i benderfynu a oes angen camau uwchgyfeirio pellach neu gamau isgyfeirio

Yn dilyn y penderfyniad a wnaed yn ystod Cam 1, mae'n bosibl y bydd AGIC yn cynnal arolygiad dilynol. Gallai'r arolygiad hwn fod ar ffurf gwiriad ansawdd er mwyn cael rhagor o wybodaeth y gellir cael gafael arni oddi ar y safle, arolygiad pellach â phwyslais penodol ar y safle, neu arolygiad llawn. Ni fyddai hyn o reidrwydd wedi'i gyfyngu i un darn o waith. Fodd bynnag, cynhelir trafodaeth Cam 1 ar ôl pob darn o waith er mwyn penderfynu ar y cam nesaf mwyaf priodol.

Sut y caiff 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' ei benderfynu?

Cam 3 - Cynnal cyfarfod Gwasanaeth sy'n Peri Pryder i benderfynu a yw gwasanaeth yn bodloni'r trothwy ar gyfer 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol'

Yr elfen allweddol a fydd yn penderfynu a ddylid ei ddynodi fel 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' yw p'un a yw AGIC o'r farn bod risg glir a sylweddol i ddiogelwch cleifion. Wrth benderfynu hyn, gellir bodloni o leiaf un o'r cwestiynau trothwy. Nodir y tri chwestiwn trothwy isod:

a) A gafodd argymhellion Cynllun Sicrwydd Uniongyrchol a/neu Gynllun Gwella eu rhoi ar waith i safon dderbyniol ac yn unol â'r terfynau amser y cytunwyd arnynt?

Os cyhoeddir cynllun Sicrwydd Uniongyrchol neu gynllun gwella yn dilyn arolygiad, mae hynny'n nodi bod pryderon difrifol am wasanaeth o ran diogelwch cleifion. Gwneir y penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad sicrwydd uniongyrchol drwy ymgynghori â rheolwr yr arolygiad, Pennaeth Arolygu'r GIG a chynghorydd clinigol. Yn ogystal â'r dystiolaeth a gesglir, caiff dyfarniadau blaenorol am ansawdd a diogelwch lleoliad eu hystyried hefyd.

Ar ôl cael hysbysiad Sicrwydd Uniongyrchol, bydd yn ofynnol i fwrdd iechyd/ymdiriedolaeth gyflwyno cynllun gwella uniongyrchol er mwyn dangos sut y bydd yn cyflawni'r gwelliant. Bydd methu â chydymffurfio â'r broses hon yn golygu y caiff y mater ei uwchgyfeirio i'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder.

Yn dilyn gweithgaredd sicrwydd, rhoddir cynllun gwella llawn i fwrdd iechyd/ymdiriedolaeth. Bydd yn nodi'r gwelliannau sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y safonau a nodir yn Neddff Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Gall methu â chwblhau'r holl welliannau i safon dderbyniol neu o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, yn arbennig ar gyfer materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â diogelwch cleifion, arwain at uwchgyfeirio'r mater i'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder.

b) A gafodd yr un materion eu codi yn ystod arolygiadau/adolygiadau blaenorol ond na wnaed gwelliannau digonol?

Os bydd AGIC yn parhau i ganfod yr un materion neu faterion tebyg, naill ai ar ôl cynnal arolygiadau neu adolygiadau dilynol o wasanaeth, neu ar draws gwasanaethau tebyg o fewn bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth, mae'n bosibl y caiff y gwasanaeth ei uwchgyfeirio i'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder.

Os na fydd y camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth wedi arwain at welliannau digonol, neu os na fydd y camau gweithredu yn cael yr effaith ddymunol, neu os na fydd AGIC yn fodlon bod y bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth wedi dysgu digon yn dilyn gweithgaredd sicrwydd, mae'n bosibl y caiff y gwasanaeth ei uwchgyfeirio i'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder.

c) A ydym wedi cael gwybodaeth ddibynadwy neu wedi casglu dystiolaeth i nodi mater y mae angen cymryd camau brys yn ei gylch?

Os bydd AGIC yn nodi risg(iau) sylweddol uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gall hyn arwain at uwchgyfeirio'r mater ar unwaith i'r llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder, yn ogystal â chyhoeddi hysbysiad Sicrwydd Uniongyrchol ar ôl cwblhau gweithgaredd sicrwydd.

Os gellir rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau trothwy a/neu fod risg i ddiogelwch cleifion, yna caiff y trothwy ar gyfer nodi 'Gwasanaeth sydd Angen ei

Wella'n Sylweddol' ei fodloni. Caiff y cyfarfod hwn, ynghyd ag unrhyw benderfyniadau a'r rhesymeg, eu cofnodi.

Sut y caiff 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' ei reoli?

Ar ôl ei nodi, bydd 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' yn destun gwaith monitro lefel uwch gan AGIC. Bydd y tîm Uwchgyfeirio a Gorfodi yn adolygu pob gwasanaeth sydd â'r dynodiad hwn.

Bydd AGIC yn cyfathrebu'n ysgrifenedig i gyfleu'r penderfyniad hwn, gan gynnwys crynodeb o'n pryderon ac, os ystyrir ei fod yn berthnasol, gopi o unrhyw gynllun gwella uniongyrchol neu wybodaeth arall. Bydd yr ohebiaeth hefyd yn cynnwys gwahoddiad i gyfarfod gwasanaeth ar ddyddiad ac amser penodol. Anfonir copi i'r bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth, Llywodraeth Cymru, ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill.

Bydd AGIC yn cyfathrebu ar ei gwefan pan fydd 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' wedi'i nodi, gan gynnwys eglurhad o pam gyrhaeddwyd y farn hon.

Bydd amserlen ar gyfer gwella yn cael ei phenderfynu ar sail fesul achos. Bydd hyn yn dibynnu ar y lefel a math o welliant sydd eu hangen. Bydd hyn yn cael ei gyfleu i'r gwasanaeth unwaith y bydd wedi'i benderfynu

Cyfarfodydd gwasanaeth

Mae cyfarfodydd gwasanaeth yn gam hanfodol ar y llwybr ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder. Unwaith y caiff gwasanaeth ei ddynodi'n 'Wasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol', caiff cyfarfod gwasanaeth ei drefnu. Gellir gwahodd y partïon canlynol i'r cyfarfod:

- Cynrychiolydd AGIC
- Cynrychiolydd y bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth
- Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
- Unrhyw gynrychiolwyr rhanddeiliaid perthnasol eraill

Mae'r cyfarfod hwn yn cynnig cyfle i'r bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth drafod y pryderon a godwyd yn uniongyrchol ag AGIC a phartïon eraill. Mae'n gyfle i ddarparu unrhyw gamau lliniaru a sicrwydd, yn ogystal â manylion ynghylch sut y mae'r gwasanaeth yn bwriadu ymdrin â'r gwelliannau a'r materion a nodwyd. Caiff canlyniadau posibl y cyfarfod eu rhestru isod:

- Cyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen / cytuno bod gwelliant digonol wedi'i wneud neu'n mynd rhagddo

- Cytuno ar gamau pellach a therfynau amser ar gyfer rhoi sicrwydd i AGIC
- Trefnu gweithgareddau sicrwydd pellach (lle rhoddir rhybudd/dirybudd)

Caiff crynodeb ysgrifenedig ei lunio o'r cyfarfod hwn ac anfonir llythyr at bob parti a oedd yn bresennol yn amlinellu'r hyn a drafodwyd a'r camau gweithredu dilynol. Rhoddir cyfle i'r bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth hysbysu AGIC am unrhyw anghywirdebau ffeithiol neu gywiriadau yr hoffai iddynt gael eu hystyried. Dylid eu derbyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Cyfrifoldeb y bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth yw sicrhau y cymerir camau ac y caiff y gwelliannau gofynnol eu cyflawni. Mae'n bosibl y bydd AGIC hefyd yn cynnal gweithgareddau sicrwydd pellach, a chaiff canlyniad unrhyw weithgareddau o'r fath eu cyfleu i'r partion â diddordeb drwy'r un broses.

Caiff cyfarfodydd gwasanaeth pellach eu trefnu, fel y bo'n briodol, hyd nes y bydd AGIC yn fodlon bod y gwelliannau wedi'u gwneud a bod y risg i ddiogelwch cleifion wedi lleihau. Gall methiant parhaus i roi sicrwydd, neu i ymgysylltu â phroses AGIC ar gyfer Gwasanaethau sy'n Peri Pryder, arwain at gamau uwchgyfeirio pellach drwy Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru.

Sut y caiff 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' ei isgyfeirio?

Caiff 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' ei isgyfeirio unwaith y bydd AGIC yn fodlon ar y camau gweithredu a gymerwyd gan y bwrdd iechyd / ymdiriedolaeth i ymdrin â'r gwelliannau gofynnol. Gall fod angen trefnu cyfarfodydd gwasanaeth pellach a chynnal gweithgareddau sicrwydd pellach cyn y bydd AGIC yn fodlon bod y gwelliannau wedi'u gwneud a bod y risg i ddiogelwch cleifion wedi lleihau.

Yn dilyn unrhyw weithgaredd sicrwydd, caiff cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder ei drefnu i drafod y canlyniadau ac i benderfynu a yw barn AGIC am y gwasanaeth wedi newid.

Pan fydd AGIC yn fodlon ar y camau gweithredu a gymerwyd gan wasanaeth ac y bydd yn penderfynu isgyfeirio'r gwasanaeth, caiff hyn ei gyfleu'n ysgrifenedig i'r bwrdd iechyd/ymdiriedolaeth berthnasol, i Lywodraeth Cymru, ac i unrhyw randdeiliad perthnasol arall/rhanddeiliaid perthnasol eraill. Bydd gwefan AGIC hefyd yn cael ei diweddarau i adlewyrchu nad yw'r gwasanaeth perthnasol bellach yn 'Wasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol'

Monitro a Llywodraethu

Mae tîm Uwchgyfeirio a Gorfodi AGIC yn gyfrifol am fonitro gwasanaethau sydd ar y llwybr hwn. Caiff pob 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' ei adolygu'n rheolaidd.

Bydd statws 'Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol' yn rhan o dystiolaeth AGIC i broses Cytundeb Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG, a gall felly ddylanwadu ar ganlyniad y broses honno.

Rhannu Dysg

Bwriad AGIC, wrth gyflwyno'r broses hon, yw cefnogi gwella a dysgu ill dau ar gyfer y gwasanaeth dan sylw, a ledled gwasanaethau'r GIG yn ehangach. Bydd y broses hon yn sicrhau y gellir cymryd camau gweithredu cyflym ac wedi'u ffocysu gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys byrddau iechyd, i sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Byddwn yn parhau i ddefnyddio dulliau i rannu dysg ar draws gwasanaethau, gan gynnwys ystyried mecanweithiau adrodd amserol fel sy'n briodol.

Llwybr ar gyfer Gwasanaethau'r GIG sy'n Peri Pryder

